# Caban Y Faenol CYF

## Gweithio mewn Partneriaeth â Rhieni/Gofalwyr

Wrth ddangos diddordeb mewn defnyddio'r lleoliad, mae rhieni/gofalwyr yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am ein gwasanaeth. Gall hyn gynnwys ymweld â'r safle ar amser sy'n gyfleus i bawb, gyda'u plentyn i weld sut rydym yn gweithredu.

Mae rhieni/gofalwyr yn cael cyfle i fynychu diwrnod agored yn y lleoliad.

Mae Caban Y Faenol yn cydnabod ac yn parchu mai rhieni/gofalwyr sy’n bennaf gyfrifol am eu plant.

Mae Caban y Faenol yn cydnabod bod rhianta yn gyfrifoldeb a rannir. Pan fo rhieni yn byw ar wahân rydym yn gweithredu i sicrhau bod gan y ddau riant y wybodaeth sydd ei hangen arnynt fel bod eu plentyn/plant yn hyderus yn y gofal y maent yn ei dderbyn yn y lleoliad.

Darperir copi o lawlyfr rhieni i bob rhiant/gofalwr sy’n manylu ar wybodaeth gyffredinol am Caban y Faenol, ynghyd â’r polisïau a gweithdrefnau mwyaf perthnasol. Hysbysir rhieni/gofalwyr yn llawn am gyfleoedd i weld ein set lawn o bolisïau a gweithdrefnau, ac mae copïau ar gael ar gais.

Mae Caban y Faenol wedi’i gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac yn cael ei arolygu gan AGC.  Gall rhieni gael mynediad i'r adroddiadau arolygu ar www.CIW.org.uk neu drwy ofyn i'r Rheolwr am gopi.

Os yw’n well gennych, gall rhieni/gofalwyr wneud apwyntiadau ffurfiol neu gan y Rheolwr i drafod cynnydd a/neu ymddygiad plentyn. Dilynir polisi cyfrinachedd y Clwb mewn amgylchiadau o’r fath. I wneud apwyntiad, cysylltwch â'r Rheolwr.

Mae'n ofynnol i rieni/gofalwyr arwyddo cytundeb gyda Caban Y Faenol cyn i'w plentyn ddechrau mynychu. Mae’r holl gofnodion ysgrifenedig a gedwir am eu plentyn eu hunain ar gael i rieni/gofalwyr ac eithrio pan fyddai hyn yn peryglu lles y plentyn. Ni fydd rhieni/gofalwyr yn gallu gweld gwybodaeth am blentyn arall ar unrhyw adeg.

Mae staff Caban y Faenol ar gael yn ystod oriau gweithredu i gael sgwrs anffurfiol â rhieni/gofalwyr am anghenion unigol a chynnydd eu plentyn. Mae'r staff yn ymwybodol o'r angen i gynnal preifatrwydd ynghylch materion sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd a'r angen i rannu gwybodaeth yn briodol. Bydd unrhyw geisiadau gan drydydd parti am wybodaeth am unrhyw blentyn unigol yn cael eu trafod gyda'u rhieni a dim ond gyda'u caniatâd y rhennir gwybodaeth oni bai y byddai gwneud hynny yn peryglu lles y plentyn.

Fel y nodir yn y contract rhiant, mae rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am hysbysu’r Rheolwr am unrhyw newidiadau yn amgylchiadau’r plentyn fel y gellir eu hychwanegu at ffurflen gofrestru’r plentyn a chymryd camau priodol.

Cynhelir arolygon ‘boddhad cwsmeriaid’ rheolaidd (fel arfer drwy holiaduron) i sicrhau bod ein gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion plant a’u teuluoedd. Anogir rhieni/gofalwyr i gymryd rhan weithredol yn yr ymarferion hyn, gan fod eu barn yn bwysig i effeithiolrwydd parhaus ein gwasanaeth a llesiant eu plentyn eu hunain.

Rhoddir diweddariadau rheolaidd trwy dudalen Facebook Caban y Faenol a thrwy neges destu.

Gosodir hysbysfwrdd o fewn y Clwb i rieni/gofalwyr a phlant gael gwybodaeth am y Clwb a’i weithgareddau.

Dylai Staff a Rheolwyr Caban y Faenol bob amser drin pob rhiant/gofalwr a phlentyn gyda pharch ac mewn modd proffesiynol a gofynnwn i rieni/gofalwyr drin ein staff yn yr un modd yn ôl yn barchus. Ymdrinnir ag unrhyw ymddygiad amhriodol neu fygythiol yn unol â'n Polisïau Ymddygiad a Gwrth-fwlio.

Anogir rhieni/gofalwyr i deimlo’n rhan o’r lleoliad, gan ein bod yn darparu gwasanaeth i’w helpu. Byddem yn croesawu unrhyw riant/gofalwr sy’n dymuno bod yn aelod o’r pwyllgor rheoli. Mae unrhyw riant/gofalwr sy’n gwirfoddoli yn ystod oriau gweithredu, neu sy’n ymuno â’r pwyllgor rheoli, yn cael gwybodaeth lawn ac arweiniad ar eu rolau a’u cyfrifoldebau.